Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 12 Haf 2010




# *Gorau chwarae cyd-chwarae*

Annwyl ffrindiau,

Disgrifiwyd y gêm bêl-droed fel ‘y gêm brydferth’, ac i filiynau o bobl ar draws y byd mae’n ymddangos fod hynny’n hollol wir – mae’n dal dychymyg ac yn ennyn cynnwrf. Nid mater hawdd yw osgoi’r sylw a roddir i’r gêm ar hyn o bryd gan fod Gornest Cwpan y Byd yn cael ei chynnal yn Ne Affrica. Ydy, mae’r ‘sioe orau yn y byd’ wedi hen gychwyn a chaiff llawer ohonom ein cipio gan y brwdfrydedd a’r cyffro diddiwedd sy’n rhan mor annatod o’r gystadleuaeth. Yn anffodus, nid yw Cymru ymhlith y gwledydd sy’n cymryd rhan yn y rowndiau terfynol eleni. Ie, yr un hen stori – gwlad fechan ydym ac nid yw’r tîm presennol yn ddigon da. Er hynny, mae gennym chwaraewyr ifainc hynod o addawol sydd eisoes wedi gwneud enw iddynt eu hunain. Daliwn i obeithio!

Gŵyr pawb fod y gallu i chwarae fel rhan o dîm yn bwysig iawn mewn bywyd ac yn gymorth i ni ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol. Mae’n naturiol fod gan bob chwaraewr ei gryfderau a’i wendidau, ac am hynny rhaid annog pawb i gydweithio er mwyn sicrhau bod y tîm yn gwneud ei orau. Bydd angen dangos amynedd tuag at y chwaraewyr hynny sydd efallai yn llai medrus a galluog na’r rhelyw. Bydd yn rhaid hefyd wrth hunan-ddisgyblaeth i ymarfer yn galed ac i ddyfalbarhau yn wyneb pob anhawster. Ydy, mae’r cyfan yn bwysig a chofiwn na fu i’r un pêl-droediwr erioed sgorio gôl heb fod ganddo dîm o chwaraewyr yn ei gynorthwyo. Aelod arall o’r tîm yw’r hyfforddwr ac er na welir ef ar y maes yn ystod y gêm mae ei gyfraniad i lwyddiant neu ddiffyg llwyddiant y tîm yn hanfodol. Bydd ef (neu hi) bob amser yn bresennol ar yr ochr yn bloeddio cymeradwyaeth ac yn annog y tîm ymlaen. A bydd angen iddo hefyd ddweud y drefn o dro i dro!

Gall Gornest Cwpan Pêl-droed y Byd ddysgu gwersi pwysig i aelodau’r Eglwys heddiw. Rydym i gyd yn ddibynnol ar ein gilydd ac yn perthyn i deulu Duw. Roedd yr Apostol Paul yn gwbl bendant ynglŷn â hynny (1 Corinthiaid 12:12–27). Mae pob Cristion, meddai, yn aelod o gorff Crist, yn union fel y mae troed neu law, clust neu lygad, yn rhan o’r corff dynol ac er bod llawer o aelodau gan y corff hwnnw, un corff ydyw mewn gwirionedd. Ni all un rhan o’r corff anwybyddu rhan arall trwy ddweud, ‘Nid oes arnaf dy angen di’. I’r gwrthwyneb, meddai’r Apostol, mae hyd yn oed yr aelodau hynny sy’n ymddangos yn wannaf yng nghymdeithas yr eglwys yn gwbl angenrheidiol.

Felly, mae’n dilyn fod gan bob un ohonom ran i’w chwarae yn y tîm a chyfraniad gwerthfawr i’w wneud er sicrhau llwyddiant teyrnas Crist.

Nid oes yr un aelod yn bwysicach na'r llall ac mae gan bawb gyfle i ddangos ei ddoniau. Yn yr un modd, mae gennym hyfforddwr penigamp yn yr Arglwydd Iesu Grist. Daeth i'n plith i'n haddysgu ym mhethau'r Deyrnas, i roi arweiniad, i galonogi, i ddweud y drefn ac i'n rhybuddio am ein gwrthwynebwyr, sef y pechod a all ein trechu a'n caethiwo.

Yn anffodus, bydd y gelyn yn aml yn llwyddo i gael y gorau arnom a gall hynny olygu nad y goliau syfrdanol na'r cydweithio ymroddedig a fydd yn denu'r sylw. Yn ystod gêm derfynol Gornest Cwpan Pêl-droed y Byd 2006 cafodd un o chwaraewyr Ffrainc, Zinedine Zidane, ei yrru o'r maes am hyrddio'i ben yn fwriadol yn erbyn Marco Materazzi, un o chwaraewyr yr Eidal. Ac yntau'n cynrychioli ei wlad am y tro diwethaf, dylasai'r gêm hon fod wedi bod yn uchafbwynt gyrfa Zidane. Ond nid felly y bu. Yn y 110fed munud derbyniodd y garden goch am ei drosedd ddieflig. Gadawodd Zidane y tîm i lawr a cholli fu hanes ei wlad. Mae'r hyn a ddigwyddodd i Zidane yn ddrych o'r hyn a all ddigwydd i ninnau hefyd. Mor hawdd yw i ni siomi ein hunain a pheri niwed i eraill drwy ein hymddygiad ffol. Roedd gyrfa Zidane yn un o'r gorau a fu erioed ond roedd iddi ddiweddglo hynod drist.

Er hynny, mae modd i'r pechadur gael ei gymodi â Duw. Yn ystod ei yrfa fel pêl-droediwr enillodd cyn-gefnwr chwith Brasil, Sylvinho, 26 o gapiau dros ei wlad. Tra oedd yn chwarae dros Arsenal, Barcelona, Corinthians, Celta Vigo a Manchester City, enillodd bencampwriaeth La Liga dair o weithiau, Pencampwriaeth Genedlaethol Brasil, ynghyd â dwy fedal enillwyr Cynghrair Pencampwyr Ewrop. Ond nid y llwyddiant a'r bri oedd y peth pwysicaf yn ei fywyd. Roedd gan Sylvinho nod ragorach. Dywed mai'r gôl derfynol y dylem anelu ati mewn bywyd yw hon:

'*Rwyf wedi adnabod yr Arglwydd ers rhai blynyddoedd. Agorais fy nghalon i'r Iesu a gadewais iddo ddod i mewn i'm bywyd i'm gwneud yn berson newydd … Roeddwn yn llawen iawn o wybod mai pechadur oeddwn ond yn awr rwyf wedi derbyn maddeuant. Rwyf yn ddyn sy'n ceisio gwneud yr hyn y mae Duw yn ei ddweud wrthym yn Ei Air, sef y Beibl*.'

Gallwn ninnau hefyd gyflymu at y nod ond i ni ymddiried yn llwyr yn Iesu fel ein Harglwydd a'n Gwaredwr, ein Hyfforddwr mawr. Ef yn unig all sicrhau ein bod yn y tîm buddugol.


Gwyliwch y goliau.

Yr eiddoch yng Nghrist
Wyn Morris (Bugail)

# Tudalen y Plant

'Tyrd i lawr o'r goeden; rwyf am dod i'th dŷ,' meddai Iesu wrth Sacheus. Helpwch Sacheus i ddod i lawr heb groesi'r dail na'r canghennau, ac yna lliwiwch y llun.

Mae'r hanes yn llyfr Luc 19:1–10.



Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Gorffennaf**. Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Cofiwch ysgrifennu eich enw ar y dudalen.

Llongyfarchiadau i **Ema Jones, Capel Seion** enillydd y gystadleuaeth.

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth***

| | |
|---|---|
| 6 Gorffennaf | Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 2 o'r gloch |
| 11 Gorffennaf | Oedfa haf yr Ofalaeth<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 13 Gorffennaf | Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 6 Medi | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 19 Medi | Sul Croeso Nôl<br>Oedfa arbennig o groeso<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 2–10 Hydref | Cenhadon 'Taith Dewi Sant' yn ardal<br>Bow Street, Penrhyn-coch a Thal-y-bont |
| 10 Hydref | Oedfa ddiolchgarwch yr Ofalaeth<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org




IHS

## *Y Gymanfa*

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion yn y Garn ddydd Sul, 9 Mai 2010. Yn y bore cafwyd oedfa deuluol dan arweiniad Dr Owain Edwards, Coleg y Bala, ar y thema 'Ymddiried yn yr Iesu' ac fe gymerwyd rhan gan nifer dda o blant ysgolion Sul y cylch.

Yn yr hwyr, cynhaliwyd cymanfa'r oedolion ac fe gafwyd cyfarfod bendithiol dan arweiniad Mrs Carol Davies, Henllan, arweinydd presennol Côr Meibion Aberystwyth.



## Galwad i Addoli

Dad Nefol,
Diolchwn am dy gariad dros y byd,
ac am i Ti wneud dy hun yn hysbys
yn Iesu Grist, dy Fab.

Arglwydd Iesu,
Ti yw Gwaredwr y byd.
Fel yr addewaist, bydd gyda ni
yn ystod "Taith Dewi Sant."

Ysbryd Glân,
llanw ni â'r un doethineb,
gwroldeb a nerth ag a ddangoswyd
gan ein Harglwydd Iesu wrth iddo
gyhoeddi efengyl y Deyrnas.

**Ymrwymaf fy hun i weddïo**
**Am 5 munud y dydd**
**Er mwyn i 5 o bobl ddod at Grist**

..............................................................

..............................................................

..............................................................

..............................................................

..............................................................

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Through Faith Missions
01954 210239
admin@through-faith-missions.org

Safle We'r Daith:
www.walksaintdavid.co.uk

## Themâu Gweddi

**Dydd Sul: Gogoniant Duw**
Ym mhob peth, i Dduw bo'r gogoniant.
*"…iddo ef y bo'r gogoniant yn yr eglwys ac yng Nghrist Iesu, o genhedlaeth i genhedlaeth."*

**Dydd Llun: Gweithlu (y pwyllgor trefn)**
Gweddïwch y bydd Duw yn eu harwain yn y gwaith o arolygu'r strategaeth ar gyfer y Daith.
*"Penderfynwyd gan yr Ysbryd Glân a chennym ninnau…"*

**Dydd Mawrth: "Sgowtio"**
Mae trefnwyr y Daith yn ceisio ymweld ag arweinyddion yr holl eglwysi yn ardal y genhadaeth.
Gweddïwch y bydd ymweliadau parhaus o ganlyniad i'r rhai a fethwyd
yn ystod y cysylltiadau cychwynnol.
*"Yr wyf yn gweddïo gyda llawenydd. Diolch y byddaf am eich partneriaeth yn yr Efengyl."*

**Dydd Mercher: Eglwysi**
Gweddïwch y bydd nifer fawr o'r eglwysi lleol yn gwahodd timau i'w hardal.
*"…er mwyn i ysblander amryfal ddoethineb Duw gael ei hysbysu yn awr, trwy'r eglwys."*

**Dydd Iau: Recriwtio**
Gweddïwch dros y rhai a fydd yn gwirfoddoli i fod yn aelodau o'r timau cenhadol; gweddïwch y bydd nifer ohonynt yn perthyn i'r eglwysi lleol.
*"Dyma fi, anfon fi."*

**Dydd Gwener: Cristnogion Newydd**
Gweddïwch y bydd llawer yn dod i ffydd fywiol yng Nghrist ac yna'n cynyddu fel disgyblion.
*"Gallu Duw yw'r Efengyl ar waith er iachawdwriaeth."*

**Dydd Gwener: Cyhoeddusrwydd**
Gweddïwch dros y cysylltiadau â'r cyfryngau ac â'r eglwysi lleol er hyrwyddo'r genhadaeth.
Gweddïwch y bydd yr angerdd dros Grist a'i efengyl a roddir ar dân gan Daith Dewi Sant yn parhau i losgi.
*"Peidiwch â diffodd yr Ysbryd."*

# 18 Medi–10 Hydref 2010

***Wythnos Bow Street, Penrhyn-coch, Tal-y-bont a'r cyffiniau***
***2–10 Hydref 2010***

Fel y gwyddoch, bydd y fenter genhadol 'Taith Dewi Sant' yn digwydd rhwng 18 Medi a 10 Hydref yn siroedd Ceredigion, Penfro a Gorllewin Caerfyrddin. Eglwysi lleol sy'n trefnu'r genhadaeth. mewn cydweithrediad â mudiad o'r enw 'Through Faith Missions'. Gwahoddwyd y mudiad hwn i weithio mewn partneriaeth â'r eglwysi lleol i hyrwyddo Achos Efengyl Crist yn y fro ac mae ganddynt flynyddoedd lawer o brofiad o gydweithio ag eglwysi i gynnal cenhadaeth o'r fath.

Yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref (o'r 2il hyd at y 10fed) bydd 'Taith Dewi Sant' yn cyrraedd ardaloedd Penrhyn-coch, Bow Street, Tal-y-bont, Taliesin a'r cyffiniau. Yn ystod y cyfnod hwn bydd y tîm o 8–10 o wirfoddolwyr a ddaw i'r ardal yn awyddus i gyfarfod â chymaint o bobl â phosib. I'r perwyl hwn cysylltwyd â nifer o ysgolion, cymdeithasau a mudiadau yn y cylch i holi a fyddai'n bosib i gynrychiolwyr o'r tîm ymweld â hwy rywbryd yn ystod yr wythnos fel y gallant ddweud gair wrth yr aelodau neu'r disgyblion am y daith, y genhadaeth a'r dystiolaeth Gristnogol. Bydd yna gyfle arbennig i eglwysi'r ofalaeth gymryd rhan hefyd yn y gweithgareddau hyn.

Bydd y gwirfoddolwyr yn lletya mewn festrïoedd yn ardal Bow Street am y pedair noson gyntaf ac yn ardal Penrhyn-coch am y pedair noson olaf.

Gofynnir am gymorth a chefnogaeth caredigion lleol i ddarparu brecwast syml a thocyn cinio i'r gwirfoddolwyr. Hefyd, yn bwysig iawn, gwahoddir aelodau a'u teuluoedd i ddarparu swper i ddau o'r gwirfoddolwyr rhwng 5 a 7 o'r gloch y nos cyn iddynt fynd ymlaen i weithgareddau'r hwyr. Bydd angen 4 cartref i estyn croeso bob nos am 4 noson – hynny yw, 16 i gyd. Gobeithir yn fawr y gallwn estyn croeso cynnes arferol yr ardal hon ac y cawn ymateb cadarnhaol i'r cais.

Os ydych yn barod i gynorthwyo gyda chefnogi'r gwirfoddolwyr cenhadol yn ein plith, yna cysylltwch â'r Parch. Wyn Morris.

*Pwyllgor Lleol 'Taith Dewi Sant'*



Cynhelir

**Barbeciw'r Garn**

nos Wener, 9 Gorffennaf

yng Ngharreg Cennen, Dolau

(neu Ysgoldy Bethlehem,
os bydd y tywydd yn anffafriol)

am 6 o'r gloch

Pris tocyn: £5 i oedolion; £1 i blant

Croeso cynnes i bawb

Yr elw at Gapel y Garn

***Gofalwr / Gofalwraig Bethlehem***

Yn dilyn penderfyniad Mrs Elina Davies i ymddeol o'i swydd fel gofalwraig ysgoldy Bethlehem, Llandre, ddiwedd Awst, rydym yn gwahodd ceisiadau gan rai a hoffai ymgymryd â'r swydd o ofalu am y ganolfan fywiog hon.

Telir cydnabyddiaeth

Am ragor o wybodaeth, cysyllter ag
Alan Wynne Jones (828163) cyn 16 Gorffennaf.

## Gorffennaf

*Blaenor y Mis: D Elystan-Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian Beech Hughes*

**4** Richard Llwyd Jones
Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa
Yr ysgol Sul yn cwrdd yn y Garn, 10–10.45 o'r gloch
Oedfa'r hwyr yn y Garn

5 Pwyllgor yr ysgol Sul am 7 o'r gloch

9 Barbeciw'r Garn yng Ngharreg Cennen, Dolau
(drwy garedigrwydd Mrs Dwysli Peleg-Williams)
am 6 o'r gloch. Pris: £5; plant £1

**11** Oedfa haf yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch

Trip yr ysgol Sul i Quackers, Pontnewydd-ar-Wy

**18** Bugail
Oedfa gymun yn y bore
Mrs Jên Ebenezer yn ymweld â'r ysgol Sul
ar ran y Pwyllgor Plant ac Ieuenctid

22 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch

**25** Parch R W Jones




Arglwydd y Pentecost, ffynhonnell ein bywyd a'n hegni,
bywha dy waith ynof fi, ynom ni
a thrwyom oll er clodfori dy enw
ac iacháu byd toredig. AMEN.

Agorwyd drysau Capel y Garn rhwng 10 a 12 o'r gloch bore Sadwrn, 22 Mai, i roi cyfle i unrhyw un droi i mewn i fod yn ddistaw o flaen Duw – mewn gweddi neu fyfyrdod fel rhan o ddigwyddiad Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar benwythnos y Pentecost.

Roedd y Gweinidog a'r swyddogion yn bresennol a rhannwyd taflen weddi bwrpasol i bawb a ymunodd â ni. Er mai nifer cymharol fychan fanteisiodd ar y cyfle i droi i mewn atom, cafwyd ymateb calonogol i'r achlysur, a theimlwyd bod encilio am gyfnod fel hyn wedi bod yn werthfawr a buddiol.

## Awst

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

**1** Parch Kevin Davies
Oedfa'r bore yn unig yng Nghapel Noddfa

**8** Parch Lewis Wyn Daniel am 10 ac am 5 o'r gloch
Noddfa yn cydaddoli yn y Garn

**15** Dr Rhodri Glyn
Oedfa'r bore yn unig yng Nghapel Noddfa

**22** Parch J R Jenkins – oedfa'r bore yn unig
Noddfa yn cydaddoli yn y Garn

**29** Parch J E Wynne Davies
Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa
Oedfa'r hwyr yn y Garn

Llongyfarchiadau:

i Manon ac Andrew Curley ar enedigaeth merch, Liwsi Fflur, ar 27 Mawrth, chwaer fach i Ffion Mari, wyres i Dan a Sandra Mason, a gorwyres i Eirlys Owen;

i Glyn a Gill Saunders Jones ar ddod yn daid a nain unwaith eto – ganed mab bach, Tomos Dafydd, i Dafydd a Rebecca ddydd Sadwrn, 3 Ebrill;

i Richard a Lynwen Evans ar enedigaeth merch fach, Enid Angharad, dydd Gwener, 16 Ebrill, wyres fach gyntaf i Elen Evans, Erw Las.

## Medi

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins*

| | |
|---|---|
| **5** | Parch Gwyn Madoc-Jones |
| 6 | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>yn festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 8 | Grŵp Help Llaw yn ailddechrau am 2.30 o'r gloch |
| **12** | Oedfa'r bore dan arweiniad y Bugail<br>Ysgol Sul y Garn yn ailddechrau<br>Oedfa'r hwyr dan arweiniad Miss Beti Griffiths |
| **19** | *Sul Croeso 'Nôl*<br>Gwasanaeth arbennig o groeso yn y bore<br>dan arweiniad y Bugail<br>Oedfa gymun ym Methlehem, Llandre, yn yr hwyr |
| **26** | Arwyn Pierce |

### ***Grŵp Help Llaw y Garn***



Bydd y cyfarfodydd wythnosol yn ailgychwyn brynhawn Mercher, 8 Medi am 2.30 o'r gloch.

Yn y cyfamser, mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen o godi arian i Tŷ Gobaith, sef hosbis i blant yng Nghonwy, a chymorth i Tŷ Cariad Affrica, sef cartref Cristnogol i blant amddifad yn Uganda.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â
Shân (01970 828268) neu Bethan (01970 611502)

# Nôl i’r Eglwys

## SUL CROESO NÔL 2010

Yn ystod mis Medi, bydd miloedd o bobl yn gwahodd rhywun i ddod i’r capel gyda nhw.

Mae pobl yn colli cysylltiad â’r eglwys am bob math o resymau. Ond byddai llawer yn dychwelyd petaent yn cael gwahoddiad.

Ar Sul Croeso Nôl 2009, fe wnaeth dros 350 o eglwysi ar hyd a lled Cymru wahodd a chroesawu bron i 4,000 o ffrindiau yn ôl atynt. Roedd hyn yn cynnwys tua 70 o eglwysi Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

## CEFNDIR

Dechreuodd Sul Croeso Nôl yn Esgobaeth Manceinion yn 2004, gyda 160 o eglwysi yn cymryd rhan. Mae wedi tyfu bob blwyddyn ers hynny, a bellach mae eglwysi ar draws y byd yn cymryd rhan. Mae 12–15% o’r bobl sy’n dychwelyd ar Sul Croeso Nôl yn dod yn aelodau llawn o’r eglwys, ac mae nifer sylweddol yn cadw mewn cysylltiad â’r eglwys.

Bydd gwasanaeth arbennig yn cael ei gynnal yng Nghapel y Garn am 10 o’r gloch bore Sul, 19 Medi, dan arweiniad ein Gweinidog, fel rhan o’r digwyddiad hwn.

Mae gwahoddiad cynnes i chi ymuno â ni.

## *Ysgol Sul Capel Seion*

Diolchwn am yr Ysgol Sul
A'r fendith ynddi gawn;
Ein myfyrdodau arddel, Iôr,
Sancteiddia Di bob dawn.

(Elwyn P. Howells)

Mae nifer dda o aelodau yn mynychu'r ysgol Sul yng Nghapel Seion, gyda thri dosbarth. Yn gyntaf mae'r plantos iau, dan saith oed, yng ngofal Mrs Eirlys Williams gyda Ms Angharad Jones yn cynorthwyo fel y bydd angen. Yn ail, mae'r plant hŷn a ddysgir mewn rota o aelodau a rhieni am ddeufis, felly mae'r plant yn cael amrywiaeth o athrawon! Y trydydd yw dosbarth yr oedolion dan law Mr John G. Jones a Dr Maredudd ap Huw. Hoffwn ganolbwyntio ar y dosbarth yma a cheisio esbonio pam ei fod mor hapus a buddiol, a'r aelodau wrth eu boddau ac yn elwa cymaint ohono.

Mae tua 12 ohonom yn mynychu, a'r oedran yn amrywio o ddeg ar hugain i dros naw deg, felly mae gennym brofiadau a daliadau eang i'w rhannu. Y gwerslyfr eleni yw *Cwestiynau Mawr Bywyd* gan Euros Wyn Jones.

Cynhelir y wers mewn modd hollol anffurfiol, gan gychwyn gyda phaned a sgwrs fer cyn mynd at y pwnc sydd mewn golwg. Rydym yn hollol rydd i gynnig barn ar y gwahanol bwyntiau sydd yn codi o'r darlleniadau. Mae hyn yn ddiddorol dros ben oherwydd 'ym mhob pen mae piniwn', ac yn aml iawn wrth ystyried y gwahanol gwestiynau cawn ateb neu sylw hollol wahanol i'r farn oedd gennyn trwy bwynt nad oeddem wedi meddwl amdano na'i ystyried. Gall sylw newydd efallai newid hen feddylfryd o ran y ffordd yr ydym yn edrych ar bethau.

Hyfryd iawn yw cael cwmni a mewnbwn ein gweinidog, y Parchedig Wyn Morris, a hefyd rydym yn ffodus o dro i dro i gael cwmni'r Parchedig Athro John Tudno. Mae cael goleuni eu dysgeidiaeth hwy ar y wers yn ehangu ein gwybodaeth a'n gorwelion, gan wneud y wers yn fwy addysgiadol a diddorol.

Rwyf yn ystyried y Beibl mewn llawer modd, yn llyfr hanes, gyda'r Testament Newydd yn dangos sut yr oedd Iesu yn dysgu ei ddisgyblion a'r werin bobl. Mae hefyd yn llyfr canllaw sydd yn gefn i mi.

Un o'r gwersi a fwynheais eleni oedd honno ar adnodau 5ed bennod yr Epistol at y Galatiaid a'r deg adnod gyntaf o'r 6ed bennod, sydd yn fy atgoffa sut y dylwn ymddwyn. Rydym yn byw mewn cymdeithas sydd yn arddel y syniad o 'name and shame'. Mae angen cymdeithas agored ond yn aml iawn rydym yn anghofio edrych ar ein beiau ein hunan.

Beth mae'r ysgol Sul yn ei roi ac yn ei olygu i mi, a sut yr wyf yn elwa ohoni? Yn gyntaf oll, ystyriaf fod yr ysgol Sul yn ysgol feithrin i'r capel. Mae'n meithrin agweddau moesol yn ogystal â rhoddi dysgeidiaeth grefyddol i'r plant, a hynny mewn awyrgylch gyfeillgar a hapus. Yma mae'r hedyn yn cael ei hau a fydd ganddynt drwy gydol eu hoes. Mae'r ysgol Sul yn rhoddi sylfaen gadarn i'r plant adeiladu arni.

Mae cael y cyfle i drafod a rhoi mewnbwn ein hunain i'r wers yn ein hannog i feddwl am y cynnwys, a hefyd sut y gallwn ddefnyddio'r wybodaeth yn well ac yn fuddiol, nid yn unig i'n hunain, ond i'n cyd-ddyn yn ddyddiol. Mor addas yw geiriau Dewi Sant, 'Gwnewch y pethau bychain'.

Mae'r gymdeithas o fewn yr ysgol Sul yn glòs a chyfeillgar; mae hyn yn rhoi teimlad o gynhesrwydd, a chawn gefnogaeth a chonsýrn gan yr aelodau pan fydd angen. Wrth gael mynychu'r ysgol Sul, rydym yn rhan o deulu arbennig, a theimlaf yn reit freintiedig o fod yn rhan o'r teulu yma.

Fel llawer o ysgolion Sul eraill mae gennym weithgareddau allanol i'r plant ac i'r oedolion: pnawn yn y pwll nofio, y maes chwarae a phicnic i'r plant, a phererindod ddiddorol i'r oedolion. Mae'r cyfan yn agwedd arall o'r gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau o fewn yr ysgol Sul.

Mae'r plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gwasanaethau arbennig yng nghalendr yr eglwys; rhydd hyn brofiad gwahanol a chyfle i feithrin hyder i draddodi'n gyhoeddus, profiad a all fod o fudd mawr iddynt yn y dyfodol.

I'r oedolion, mae'n rhoi cyfle i astudio'r Beibl yn fwy manwl ac ailddysgu, efallai, rai pethau a aeth yn angof. Mae'n dangos sut mae'r Beibl wedi medru goroesi ac yn dal i fod mor berthnasol i ni heddiw ag erioed.

I gael mordaith hapus a llewyrchus, rhaid wrth gapten arbennig i lywio'r llong, a dyna sydd gennym yma yn Seion. Dan lywyddiaeth gadarn a chynnes Mrs Ina Tudno, rydym yn hwylio'n llwyddiannus, ac rydym yn dra diolchar iddi am ein harwain, a'r gwaith mae'n ei wneud er budd ein hysgol Sul.

Cred yr aelodau nad yw'r ysgol Sul yn cael y gydnabyddiaeth a haedda. Mae'r gwaith sydd yn cael ei wneud ynddi yn werthfawr dros ben. Wedi'r cyfan, onid dyma'r plant fydd yn aelodau ein capeli yn y dyfodol? Yn wir, mae'n fudiad sydd angen ei barchu, ei drysori a'i ddiogelu gan bob un ohonom ar bob cyfrif.

Mae'n galw'n dirion arnom,
Dowch, blant bychain, ataf fi.

*E. E. Jones*



*Ysgol Sul Capel Seion*









Posteri ysgolion Sul y Garn a Chapel Seion – rhan o arddangosfa liwgar ysgolion Sul Ceredigion ym mhabell Cytûn yn Eisteddfod yr Urdd, Llanerchaeron

## *Sul Cymorth Cristnogol*



Dydd Sul, 16 Mai 2010, oedd Sul Cymorth Cristnogol yn y Garn eleni ac fe gafwyd oedfaon arbennig i nodi'r achlysur. Yn oedfa'r bore, fe'n harweiniwyd gan y Gweinidog, a thrwy gymorth cyflwyniad PowerPoint, gwelwyd amodau byw truenus pobl Matopeni yn Nairobi, Kenya, a'r modd y mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn helpu i drawsnewid bywydau'r bobl hyn. Yn dilyn yr oedfa, cafwyd cinio bara a chaws, a gwnaed casgliad tuag at Gymorth Cristnogol.

Yn oedfa'r hwyr, fe'n harweiniwyd at fwrdd y cymun gan y Gweinidog, a chafwyd neges briodol ganddo ar drothwy'r Pentecost.



## *Insiwlin*

Bu’r gwaed yn sugno’r siwgwr
o grwydr caled y Gristnogaeth
gan adael yr insiwlin seciwlar
i lonyddu’r clefyd.

Gwelais daflu gweddill bara sych
nos y cwrdd i lwyni’r adar,
a gwrando’r gwin sbâr yn pecial
yng ngwddf y draen.
Ni rwygodd un o ddarnau llym y pren
drwy galedwch y gydwybod.

O Sul i Sul rwy’n canu gyda Phantycelyn
heb adnabod y bardd,
nac oedi eiliad i brofi
grym y cariad a’i cynhyrfodd.

Dim ond esgus sugno rhin o’r ‘gwaed a gollwyd’
pan fo’r nos yn trymhau’r ysbryd.

Mae’r blynyddoedd yn cerdded mlaen
a rhydwelïau’r ffydd yn caledu o Basg i Basg.

Beth a wnaf? Mae darnau o gorff y Crist
wedi hen deneuo yn y ffrwd.

Ddoe’n y cwrdd, rhythai’r groes wag o’r mur
a rhwd ei haearn yn disgyn fel dagrau hyll.
Am eiliad, credwn fod y Crist
wedi gadael ei groes a’i gadernid oesol
yn sefydlogi rhythm y gwaed.

Eiliad o edifeirwch ydoedd
cyn i boen yr hen bechodau
ailgerdded y gwythiennau.


*Vernon Jones*

***Chwilio am y Gwirionedd***

Fel rhan o ddathliadau pum mlynedd Canolfan y Morlan cynhaliodd Cristnogaeth21 eu cynhadledd yno yn gynharach eleni. Gwefan Gristnogol yw Cristnogaeth21 (www.cristnogaeth21.org), wedi ei sefydlu gan "griw bychan o weinidogion a lleygwyr sy'n awyddus i weld dehongli hanfodion Cristnogaeth radical ar gyfer yr oes bresennol". Credant fod "y Gymru Gymraeg wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diweddar o ddiffyg trafodaeth eang ar natur Cristnogaeth yn ein dyddiau ni".

Ymhlith y rhai oedd yn cymryd rhan yr oedd y Barchedig Enid Morgan (Yr Eglwys yng Nghymru), y Parch Vivian Jones (Annibynnwr, gŵr a dreuliodd nifer o flynyddoedd yn Unol Daleithiau'r America ac awdur nifer o lyfrau diwinyddol ac athronyddol eu naws), a Tecwyn Ifan (Bedyddiwr a chanwr pop sydd yn gwneud gwaith arloesol tua'r gogledd yna gyda phobl sydd yn ei chael hi'n anodd uniaethu gyda chrefydd gonfensiynol).

Y prif siaradwr oedd Keith Ward, Athro Diwinyddiaeth Coleg Gresham, Llundain, a chyn-Athro Brenhinol mewn Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Rhydychen – awdur llyfrau megis *God: a guide for the perplexed*, *Re-thinking Christianity* a *What the Bible really teaches*, a llawer o rai eraill. Gŵr sydd hefyd yn gallu dweud y man a'r lle yn ogystal â'r funud awr daeth Crist i'w fywyd.




Siaradwr rhwydd gwrando arno ond fel llawer o'i debyg, heb gymryd nodiadau, anodd iawn cofio beth yn union roedd wedi ei ddweud erbyn y diwrnod wedyn. (I mi a llawer eraill roedd y diweddar Barchedig D R Thomas, o barchus goffadwriaeth, yr un fath.)

Yr hyn oedd gan Keith Ward y bore hwn oedd crynodeb o'i lyfr *Re-thinking Christianity*, ac yn hwnnw mae'n dadlau na ellir cyfyngu'r datguddiad Cristnogol i'r Efengylau nac i unrhyw ddogfen ysgrifenedig arall. Os deallaf yn iawn, mae'n dweud mai'r hyn a geir yn Mathew, Marc, Luc ac Ioan, er enghraifft, yw tystiolaeth uniongyrchol disgyblion ond un sydd wedi ei dylanwadu gan eu hagwedd a'u dehongliad personol. Gallant ein hannog a'n hysbrydoli; gallwn hyd yn oed gredu eu bod wedi cael eu hysbrydoli gan ysbryd creadigol Duw, ond nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid eu derbyn fel y gair olaf ar y mater. Rhaid i ninnau ddehongli trosom ein hunain – darganfod, wynebu a chydnabod ein hagweddau personol ac ymateb i'r Duw oedd yn yr Iesu (ac sydd o hyd yn yr Arglwydd atgyfodedig) yn ein ffordd ein hunain. Ei weld o'r lle yr ydym ni yn sefyll – gan fod yn barod i gydnabod ar yr un pryd y cyfyngiadau mae hyn yn ei roi ar ein gweledigaeth.

Crist yw'r Ffordd, y Gwirionedd a'r Bywyd. Mae'r gwirionedd yn ganolog i'r ffydd Gristnogol ond nid yw bob amser i'w gael trwy dderbyn yr hyn ddywed y gwybodusion. Rhaid iddo fod yn agored i ymholi am dystiolaeth, dadl agored, ac i gwestiynu. Rhaid parchu dehongliadau newydd a dangos parodrwydd i dderbyn ffaeledigrwydd yn eraill ac ynom ni ein hunain. Mae ymrwymiad i ymchwilio am y gwirionedd yn hollbwysig a'r demtasiwn i gredu ei fod yn ein meddiant yn drahaus. Yn y dyfodol y daw'r datguddiad llawn o'r gwirionedd ac yn yr ystyr hwnnw mae'r Cristion wedi ei dynghedu i chwilio'n barhaus amdano ac nid i gymryd yn ganiataol ei fod yn berchen arno'n barod.

Symbyliad i ni i gyd fynychu dosbarthiadau Beiblaidd.

Dau sydd yn amlwg yn awyddus i barhau gyda'u hymchwil am y gwirionedd yw'r Barchedig Judith Morris a'r Parchedig Ddr John Tudno Williams, cyn-brifathro'r Coleg Diwinyddol. Braf oedd eu gweld yn y gynhadledd.

*Eddie T Jenkins*

Cymdeithas y Cymod yng Nghymru

# *Oedfa Heddwch*

yn Soar y Mynydd
Sadwrn, 10 Gorffennaf 2010

am 2 o'r gloch

Anerchir gan
Dr Robin Gwyndaf

***'Na i Goleg Milwrol Sain Tathan***
***Ie i Academi Heddwch i Gymru'***

Ar y bererindod arbennig hon, mae gwahoddiad hefyd i unigolion a theuluoedd drefnu i oedi yn Nhregaron, ger y gofeb i Henry Richards, Apostol Heddwch Cymru – oedi i gofio ac i ddiolch.

***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Vernon Jones, Gaerwen, Bow Street (01970 828344)
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 12 Medi:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
(01970 828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
(01970 828662)
marian_hughes@btinternet.com